

GWAITH CYMDEITHASOL



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

MA

Llawn amser: 2 flynedd

- Hyfforddiant proffesiynol ar gyfer gyrfaoedd mewn amrywiaeth eang o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol
- Cydnabyddir gan Gyngor Gofal Cymru
- Llwybrau Cymraeg a Saesneg ar gael
- Cymorth ariannol ar gael
- Dechreuwch weithio fel gweithiwr cymdeithasol cofrestredig ar ôl gorffen





PAM ASTUDIO GWAITH CYMDEITHASOL?

Mae gwaith cymdeithasol yn yrfa amrywiol a llawn her ac mae pob diwrnod gwaith yn wahanol. Fel gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, byddwch yn gweithio gyda phob math o bobl, pob un â'u cryfderau a'u hanghenion unigryw a'u gobeithion eu hunain ar gyfer y dyfodol.

Byddwch yn cyflawni nifer o wahanol swyddogaethau, yn cynnwys rheoli achosion, eiriol ar ran pobl a'u hamddiffyn. Yn bwysicaf oll, gellwch helpu i sicrhau newidiadau cadarnhaol ym mywydau pobl. Gall fod yn waith anodd, ond mae bob amser yn rhoi boddhad ac yn werth chweil. Mae gwaith cymdeithasol yn rhoi cyfle i weithio gydag amrywiaeth eang o bobl, o blant ifanc i bobl hŷn, mewn llawer o wahanol sefyllfaoedd.

Mae gwaith cymdeithasol yn swydd gyfrifol iawn ac felly mae angen hyfforddiant proffesiynol ar rai sydd am weithio yn y maes. Mae'n bwysig bod gan weithwyr cymdeithasol ddi-ddordeb mewn pobl, ond nid yw hynny ynddo'i hun yn ddigon. Mae angen i weithwyr cymdeithasol fedru meddwl yn gyflym a bod yn drwyadl ac effeithlon. Pan geir atebion i anawsterau gall hynny roi boddhad eithriadol i weithwyr cymdeithasol.



Pam Dewis Bangor?

- Mae traddodiad maith o addysg mewn gwaith cymdeithasol yn Mhrifysgol Bangor.
- Caiff myfyrwyr brofi manteision byw mewn cymuned ddwyieithog a datblygu eu sgiliau gwaith cymdeithasol o fewn lleoliadau dwyieithog.
- Gall Gogledd Cymru cynnig profiadau o ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cymunedau gwledig iawn yn ogystal ag mewn mannau mwy trefol.
- Mae'r Ysgol Gwyddorau Cymdeithas yn gartref hefyd i fyfyrwyr sy'n astudio – a staff sy'n ymchwilio – ym meysydd Polisi Cymdeithasol, Cymdeithaseg a Throsedddeg, ac mae hyn yn cynnig profiad deallusol bywiog i fyfyrwyr.



“Dwi'n teimlo'n lwcus iawn fy mod i wedi cael y cyfle i ddilyn y cwrs yma ac i gymhwyso fel gweithiwr

cymdeithasol. Mae wedi bod yn newid byd i mi er gwell ac rwy'n teimlo fy mod i wedi datblygu a chryfhau fel person.

Rwyf bellach wedi sicrhau swydd barhaol gydag uned Gwasanaethau Plant Cyngor Ynys Môn.”

**Sharon Wyn Williams, Caernarfon
Gweithiwr Cymdeithasol,
Cyngor Ynys Môn**



MA GWAITH CYMDEITHASOL

Bwriad sylfaenol y rhaglen MA Gwaith Cymdeithasol yw paratoi myfyrwyr i allu cymryd swyddi gyda'r gweithlu gwaith cymdeithasol cymwysedig proffesiynol. Y prif amcan yw darparu rhaglen sy'n bodloni gofynion 'Fframwaith ar gyfer y Radd Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru' Cyngor Gofal Cymru (2012). Er mwyn cyflawni hyn, mae'r rhaglen yn cynnwys cyfres o fodiwlau academiaidd craidd a gofyniad i dreulio o leiaf 200 diwrnod ar leoliad dros y ddwy flynedd. Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn gymwys i ddechrau gweithio fel gweithwyr cymdeithasol cofrestredig.

Cynlluniwyd y modiwlau a'r cyfleoedd dysgu trwy ymarfer er mwyn rhoi i raddedigion y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd angenrheidiol i allu dechrau ymarfer fel gweithwyr cymdeithasol cymwysedig. Bydd y modiwlau yn seiliedig ar Feincnodau Gwaith Cymdeithasol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gwaith cymdeithasol.

Bydd y rhaglen yn cynnig llwybrau Cymraeg a Saesneg. Gall myfyrwyr ddilyn eu hastudiaethau'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Cynigir y modiwlau i gyd trwy Saesneg a'r Gymraeg, a gellir cyflwyno bob aseiniad yn y Gymraeg neu Saesneg.

Modiwlau

Blwyddyn 1

Polisi Cymdeithasol ar gyfer Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	20 credyd
Sylfaen Gwybodaeth a Sgil ar gyfer Gwaith Cymdeithasol	20 credyd
Cwrs Bywyd	10 credyd
Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	10 credyd
Y Broses Ymchwil	20 credyd
Cyfleoedd Dysgu trwy Ymarfer	30 credyd

Blwyddyn 2

Traethawd Hir Gwaith Cymdeithasol	60 credyd
Gofynion Cyfreithiol Gwaith Cymdeithasol	20 credyd
Gwaith Cymdeithasol gyda Phlant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	20 credyd
Gofal Cymuned	20 credyd
Cyfleoedd Dysgu trwy Ymarfer	30 credyd



Partneriaeth gyda Chyflogwyr

Mae'r Ysgol Gwyddorau Cymdeithas yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy i ddatblygu, cyflwyno a rheoli'r rhaglen Gwaith Cymdeithasol hon. Mae awdurdodau lleol sy'n bartneriaid yn cyfrannu at recriwtio a dewis myfyrwyr, a hefyd at eu dysgu a'u hasesu.

Mae'r prif bartneriaid hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu ymarfer, ynghyd ag asiantaethau cyflogi eraill, a thrwy hynny'n sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth gref o ymarfer gwaith cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, ochr yn ochr â'u datblygiad academiaidd.

Polisi Cymdeithasol ar gyfer Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Mae'r modiwl yn ymdrin â chyd-destun polisi cymdeithasol ac yn ystyried pam mae'r pwnc yn berthnasol i waith cymdeithasol. Rhoddir sylw i nifer o themâu ac ystyriaethau allweddol yn y maes, megis hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion, anghydraddoldeb cymdeithasol, a thlodi ac allgau cymdeithasol. Rhoddir sylw arbennig i ddadansoddi'n feirniadol y gwahanol bolisiau cymdeithasol sy'n berthnasol wrth ymarfer gwaith cymdeithasol, e.e. iechyd, addysg, tai ac ategiad incwm.

Sylfaen Gwybodaeth a Sgîl ar gyfer Gwaith Cymdeithasol

Mae'r modiwl hwn yn ymdrin â'r sgiliau a'r wybodaeth sylfaenol sydd eu hangen i ddechrau datblygu fel ymarferydd gwaith cymdeithasol. Mae'r modiwl hwn yn ymdrin â phrif feysydd theori gwaith cymdeithasol, ymarfer wedi'i seilio ar dystiolaeth, gwybodaeth defnyddwyr y gwasanaeth a gofalgwyr, a negeseuon sy'n deillio o waith ymchwil. Bydd y modiwl hwn yn helaethu a dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth y myfyrwyr o theori ac ymarfer gwaith cymdeithasol gyda defnyddwyr, gofalgwyr, teuluoedd, grwpiau, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill.

Cwrs Bywyd

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno cwrs bywyd sydd wedi'i wreiddio mewn safbwyntiau cymdeithasegol, seicolegol a chymdeithasol. Mae'n canolbwyntio ar fodel person/proses/cyd-destun. Mae'r modiwl yn galluogi'r myfyrwyr i ddeall y ffactorau sy'n llesteirio twf a datblygiad ac sy'n gwneud unigolyn yn fregus, a'r ffactorau a'r amgylchiadau hynny sy'n hyrwyddo datblygiad cadarnhaol a gwytnwch. Bydd yn edrych ar swyddogaeth bywgraffiad a hanes bywyd o ran lleoli datblygiad yng nghyd-destun amser a lle. Edrychir ar hanes bywyd o safbwynt pobl â dementia.

Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Bydd y modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i ddeall sut mae gwerthoedd gwaith cymdeithasol yn chwarae rhan greiddiol yn eu hymarfer eu hunain, ac mewn gwneud penderfyniadau gwaith cymdeithasol yn ehangach, mewn cymdeithas amrywiol. Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno i fyfyrwyr y sialensiau a geir oherwydd cyfng yngor a gwrthdaro mewn ymarfer gwaith cymdeithasol. Defnyddir egwyddorion moesegol a Chod Ymarfer Cyngor Gofal Cymru i archwilio'r materion a godwyd.

Y Broses Ymchwil

Bydd y modiwl hwn yn rhoi hyfforddiant ar lefel ôl-radd yn y prif fathau o ymchwil ansoddol a meintioli yng nghyd-destun gwaith cymdeithasol. Ei fwriad yw paratoi myfyrwyr ar gyfer eu traethawd hir gwaith cymdeithasol yn ystod yr ail flwyddyn. Bydd y modiwl yn galluogi myfyrwyr i wneud dewisiadau gwybodol wrth ddewis methodoleg ymchwil briodol ar gyfer eu hymchwil gwaith cymdeithasol eu hunain.

Traethawd Hir Gwaith Cymdeithasol

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr i wneud ymchwil unigol sydd ar raddfa fechan, ond sy'n arwyddocaol, dan ofal goruchwyliwr ymchwil. Mae myfyrwyr yn pennu cwestiwn ymchwil, yn casglu ac yn dadansoddi data sy'n ymwneud â'r cwestiwn ymchwil, gan ddefnyddio fframwaith dadansoddol priodol. Maent yn ymdrin â'r cwestiwn ymchwil wedyn yng ngoleuni eu canfyddiadau. Cyflwynir yr ymchwil ar ffurf traethawd hir heb fod yn fwy na 20,000 o eiriau, gan ddefnyddio'r confensiynau arferol.

Gofynion Cyfreithiol Gwaith Cymdeithasol

Mae tri nod i'r modiwl hwn, sef cyflwyno myfyrwyr i fethodoleg a goblygiadau ymyriadau cyfreithiol; dysgu'r hanfodion ym maes cyfraith gwaith cymdeithasol i fyfyrwyr; ac, yn olaf, datblygu eu gallu i gymhwyso'r gyfraith i faes addfiffyn oedolion a phlant. Bydd y modiwl yn canolbwyntio ar natur ddadleuol gofynion cyfreithiol a'r cyfyngiadau a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth a chyfraith achos yng nghyd-destun teuluoedd.

Gwaith Cymdeithasol gyda Phlant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

Mae'r modiwl hwn yn darparu sylfaen gyffredinol ym mhriod elfennau gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, a bydd yn ymdrin â rhai agweddau ar ymarfer yn fwy manwl. Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyr mewn modiwlau eraill am bolisiau plant yng Nghymru; effaith tlodi ar blant; datblygiad yn ystod cwrs bywyd; a defnyddio ymchwil i gyfoethogi ymarfer. Bydd rhan gyntaf y modiwl yn canolbwyntio ar ddiogelu ac yna aiff ymlaen i ymdrin â gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd yn y cyfnod pontio ac yn gadael gofal.

Gofal Cymuned

Bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar y wybodaeth, y cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi a'r sgiliau sy'n sail i ofal cymunedol a gwasanaethau gwaith cymdeithasol gydag oedolion a'u gofalgwyr. Bydd yn gwerthuso'n feirniadol yr amrywiaeth o fodolau epistemolegol sy'n cyfrannu at sail gwybodaeth ymarfer ym maes anabledau, iechyd meddwl a phobl hŷn. Bydd yn edrych ar ddulliau ymarfer ym maes iechyd meddwl, anabledau a gweithio gyda phobl hŷn.

Cyfleoedd Dysgu trwy Ymarfer

Mae Cyfleoedd Dysgu trwy Ymarfer yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer defnyddio sgiliau ymarferol, dadansoddi'n adfyfyrliol ac integreiddio dysgu academaidd. Bydd myfyrwyr yn gwneud tri lleoliad yn para 20 diwrnod, 80 diwrnod a 100 diwrnod yr un yn ystod eu hastudiaethau MA. Derbynnir pob myfyrwr gan un o'r awdurdodau lleol – Gwynedd, Conwy neu Ynys Môn – mewn trefniant sy'n cefnogi datblygiad y myfyrwr tuag at ddod yn weithwyr cymdeithasol medrus. Bydd y rhan fwyaf o gyfleoedd dysgu trwy ymarfer o fewn y tair sir, ond bydd rhai myfyrwyr yn medru manteisio oddi wrth gyfleoedd ymhellach i ffwrdd.

Mae myfyrwyr wedi mwynhau profiadau mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau, yn cynnwys swyddi gwaith cymdeithasol statudol o fewn adrannau gwaith cymdeithasol ysbtyai, timau sy'n ymdrin â throseddwyr ifanc, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau i blant a theuluoedd. Ceir amrywiaeth o gyfleoedd hefyd mewn asiantaethau yn y sector gwirfoddol megis Age Concern, Digartref Ynys Môn a Barnardo's.



RHAGOLYGMON GYRFA



Ar ôl graddio byddwch yn gallu gweithio mewn amrywiaeth eang o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol, gan weithio'n aml gyda gweithwyr proffesiynol eraill, megis therapyddion galwedigaethol neu seicolegwyr, mewn timau amlddisgyblaethol. Yn ogystal â lleoliadau gwaith cymdeithasol statudol, megis timau plant a theuluoedd, timau pobl hŷn a thimau iechyd meddwl cymunedol, gall gweithwyr cymdeithasol gael eu cyflogi mewn ysbytai, mewn projectau datblygu cymunedol, neu gyda sefydliadau anstatudol – efallai'n rhoi cymorth i ffoaduriaid neu rai'n ceisio lloches, neu'n gweithio gyda rhieni ifanc sydd angen cefnogaeth.



“Oherwydd bod gen i brofiad o weithio ym maes gofal cymdeithasol, roeddwn yn sicr fy mod eisiau bod yn weithiwr cymdeithasol i allu helpu pobl, gwella sefyllfaoedd a rhoi grym i bobl i allu helpu eu hunain.

Roedd y cwrs yn ddiddorol iawn a dysgais lwyth nid yn unig amdanaf fy hun, ond hefyd am bynciau ym meysydd gwyddorau cymdeithas, iechyd meddwl, y gyfraith, gwerthoedd a moeseg, a pholisi cymdeithasol.”

Eurig Gwyn Williams, Caernarfon
Gweithiwr Cymdeithasol, Tîm Plant a Theuluoedd
Cyngor Gwynedd

Gofynion Mynediad

- Yn ddelfrydol, gradd 2.1 a 6 mis o brofiad perthnasol. Bydd ymgeiswyr sydd â gradd 2.2 sy'n gallu dangos profiad perthnasol helaeth cryf yn cael eu hystyried.
- Mae'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol.
- TGAU Mathemateg a Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf, gradd C neu gyfwerth.
- Bydd rhaid i bob ymgeisydd fynd trwy wiriadau y bernir eu bod yn angenrheidiol i gofrestru fel myfyriwr gwaith cymdeithasol gyda Chyngor Gofal Cymru (yn cynnwys gwiriadau o ran iechyd a cholffarnau troseddol).
- Rhoddir cyfweiliad i'r holl ymgeiswyr i ganfod pa mor addas a chymwys ydynt ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol.

Rydym yn croesawu ymgeiswyr sydd â thrwydded yrru lawn gan fod y mwyafrif o leoliadau cyfleoedd dysgu trwy ymarfer yn gofyn am yrwyr. Dylid ymgeiswyr nodi mai ychydig iawn o gyfleoedd dysgu trwy ymarfer sydd ar gael lle nad yw gyrru'n hanfodol. Yn gyffredinol, neilltuywyd y lleoliadau yma ar gyfer myfyrwyr ag anghenion penodol e.e. anabledd sydd yn eu hatal rhag gyrru.

Y Cyfweiliad

Mae'r cyfweiliad yn rhan allweddol o'r broses ddewis. Felly, cyn y cyfweiliad, cynghorir ymgeiswyr yn gryf i siarad â phobl sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau gwaith cymdeithasol, i ymchwilio a darllen am waith cymdeithasol, a myfyrio ar eu profiadau eu hunain er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'r maes.



BWRSARIAETHAU A CHYLLID

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd myfyrwyr sydd â'u cyfeiriad cartref yng Nghymru yn gymwys i gael cyllid gan Gyngor Gofal Cymru. Nifer cyfyngedig o fwrsariaethau sy'n cael eu cynnig bob blwyddyn, felly mae'n bwysig gwneud cais yn gynnar.

Dyma'r cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio gradd Meistr:

- £6,640 o fwrsariaeth na chaiff ei hasesu ar sail incwm y flwyddyn (hyd at ddwy flynedd); a
- lwfans Dysgu trwy Ymarfer, gwerth £7.50 y diwrnod ar leoliad

Ceir manylion cyswllt Cyngor Gofal Cymru isod.

FFIOEDD

Yn 2014/15, roedd y ffioedd yn £5,250 y flwyddyn (cwrw 2 flynedd).

Disgwylir bydd cynnydd bach yn 2015/16.

I gael gwybodaeth bellach am y radd MA Gwaith Cymdeithasol, cysylltwch â:

Lynda Jones, Gweinyddwr Gwaith Cymdeithasol
neu Fiona Macdonald, Tiwtor Derbyn
Ysgol Gwyddorau Cymdeithas
Prifysgol Bangor
Bangor
Gwynedd
LL57 2DG

01248 382127

gwaithcymdeithasol@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/gc



Am wybodaeth bellach am ffioedd a bwrsariaethau:

Cyngor Gofal Cymru
6th Floor West Wing
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

02920 226257 / 0845 0700249

info@ccwales.org.uk
studentfunding@ccwales.org.uk

www.ccwales.org.uk